Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 25ain Mehefin 2013

Presennol: A. Mummery, A. Jones, A. Williams, J. Roberts, H. Huws, G. Parry, M. Jones, G.C. Jones, A. Thomas, E. Parry.

1. Ymddiheuriadau: B. Jones, M. Jones, D. Williams, A. Thomas.

2. Datganiadau Diddordeb – Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

3. Materion y Cyngor Sir
A. Mummery wedi cael ymateb gan y Cyngor Sir ar nifer o faterion yn ymwneud â phriffyrdd yn bennaf Lôn Penmynydd ar raglan waith 2014/15 ar gyfer ei ail-wynebu. A. Mummery. am fynd nôl a gofyn am gael atgweirio'r tyllau dros dro, hefyd y tyllau wrth gyffordd Lôn Bontronwy/B4080.

4. Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 4ydd Mehefin 2013
Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan A. Williams. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Mater Llys Mr Challinor parthed llwybr Cil y Graig - Mr Challinor wedi pledio'n euog ac yn disgwyl canlyniad.
5.2 Llwybrau troed – C. Roberts i dorri'r llwybrau ar ôl derbyn cyngor gan John Eyton Jones.
5.3 Un Llais Cymru – G. C. Jones a H. Hughes wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Ardal Môn. Cafwyd cyflwyniadau ar gynlluniau at ddyfodol swyddfeydd y post ac hefyd am C.A.B. Etholwyd Raymond Evans yn Gadeirydd a Margaret Thomas yn Is Gadeirydd. Nodwyd bod arian hyd at £500 ar gael ar gyfer datblygu safle we i gynghorau cymuned. Bydd posib gwneud cais am yr arian ar ôl 6ed Gorffennaf 2013. Nodwyd hefyd bod hyfforddiant ar Côd ymddygiad ar gael i gynghorwyr.
5.4 Llwybr y Fynwent - Y Clerc wedi anfon cais at Lywodraeth Cymru am ganiatâd i fenthyg arian ar gyfer y gwaith i'r llwybr a'r traenau yn y Gors. Disgwyl ymateb gan y Cynulliad.
5.5 Ffens Clwb Bowlio – wedi'i osod. Y Clerc i yrru anfoneb am hanner y gost at CSYM.
5.6 Polyn Lamp Lôn Refail – yn dal heb ei atgyweirio. Y Clerc i gysylltu a Scottish Power i'w hysbysebuo'r ffaith.
5.7 Llythyr Carwyn Jones AC parthed peilonau -darganfuwyd bod problem gyda'r ebost info@llanfairpwll.org a bod Mr Jones wedi ymateb ym mis Ionawr. Teimlwyd nad oedd ei ymateb yn ddigonol felly penderfynwyd tynnu sylw aelodau eraill y cynulliad i'r sefyllfa a'u hannog i ofyn cwestiynau yn y senedd.
5.8 Cynllun Harddu Pentrefi – derbyniwyd 3 pris am y gwaith o daeiladu plotiau blodau ar safle'r cloc, yr hysbysfwrdd a'r arwyddion pentref. J. P. Edwards £14,080; K.M. Williams £12,170; M. Jones £13,800.
Trafodwyd y tri pris, cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan A. Williams a phenderfynwyd cynnig y gwaith i K. M. Williams ar sail ei fod wedi cynnig y pris isaf ac oherwydd fod y Cyngor yn gyfarwydd a'i waith. Y Clerc i gysylltu a'r tri cwmni i'w hysbysebu o'r penderfyniad.
5.9 Nodwyd bod y gwely blodau wedi'i adeiladu gan ted Hughes. Bydd angen ffeindio rhywun arall i gynnal y gwelyau blodau gan fod Mrs Steele wedi rhoi'r gorau i'r gwaith. Cytunwyd i ofyn i Brenda (Y Garnedd) os oes ganddi ddiddordeb. Gofyn i'r W.I. fabwysiadu'r gwely blodau ger y tolldy.
5.10 Ymgynghoriad wedi cymryd lle gyda phlant ysgol cynradd ynglyn a'r maes chwarae – adroddiad i ddilyn.
5.11 Derbynnwyd nodyn o ddiolch gan Gerwyn James y dilyn noson llwyddiannus a gafwyd i lansio "y Rhwyg". Diolchodd yn arbennig i Hwfa Roberts, gofalwr y Neuadd Goffa.
5.12 Ras 5k Llanfairpwll, 10fed Gorffennaf – nodwyd bod yr elw yn mynd eleni at y Neuadd Goffa. Gofynwyd am wirfoddolwyr i stiwardio ar y diwrnod. J. Roberts, A. Jones a G. Parry. B. Jones eisoes wedi gwirfoddoli.
5.13 Gyrru llythyr o longyfarch at Dylan Williams am ennill Pencampwriaeth Bowlio Iau Cymru. Hefyd llongyfarch y tim pel droed ar ennill y "Fair Play Award".

6. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 11eg Mehefin 2013
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion

7.1 Maes Parcio'r Gors – y ClerC i gysylltu a Cyngor Sir Ynys i agor trafodaeth ar gael safle talu ac arddangos.
7.2 Llwybr beicio – y clerc i gysylltu a Jenny Clerk i ofyn am gael paentio arwyddion llwybr beicio.
7.3 Cadeirydd y Cyngor bro a'r Clerc i baratoi swydd ddisgrifiad ar gyfer glanhawr y Gors/tirmon.

8. Ceisiadau Cynllunio

8.1 Apel Ty Gwyn, Penmynydd – dim sylw
8.2 7 Glan Llyn – dim sylw
8.3 1 Tyddyn Pwyth - dim sylw

9. Cyfrifon Mis Mehefin 2013

Cyflwynwyd y cyfrifon ynghyd a rhestr taliadau mis mehefin.
Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan A. Jones, derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

10. Gohebiaeth

10.1. UHY Hacker Young – adolygiad ffioedd archwilio cyfrifon
10.2 Carwyn Jones AC – wedi'i drafod yn eitem 5.7
10.3 Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon
10.4 Cylchgrawn Y Llais

11. Unrhyw Fater Arall

11.1 Pwyllgor wedi'i greu i edrych mewn i gostau aelodau cynghorau tref a chymuned.
11.2 Ombwdsmon wedi rhoi penderfnyiad ar achos aelod o gyngor lleol ac i glywed un achos arall.
11.3 Seddi gwag – i'w hysbysebu
11.4 Nodwyd bod tent alcohol yn y carnifal heb ganiatad y Cyngor Bro. Hefyd arwyddion "Parade Route" yn un iaith saesneg. Y Clerc i gysylltu a phwyllgor y carnifal i'w llongyfarch ar lwyddiant y carnifal a tynnu sylw at y ddau bwynt uchod.
11.5 Derbyniwyd cwyn ynglyn ag ambell yrrwr bws cwmni Eifion yn gyrru'n gyflym yn pentre uchaf. Y Clerc i ysgrifennu at y swyddog propdol yn y Cyngor Sir.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 30 Gorffennaf 2013 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....(Dyddiad)